



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

POLISI CYNALIADWYEDD A'R AMGYLCHEDD

CR 5.40 – Polisi Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd

Cynnwys

- 1.0 Cyflwyniad
- 2.0 Pwrpas
- 3.0 Cwmpas
- 4.0 Cefndir
- 5.0 Datganiad o Fwriad
- 6.0 Adolygiad o'r Polisi

Gwybodaeth am y Ddogfen

Dosbarthiad Diogelwch Amh.

Perchennog y Ddogfen Adran Risg Gorfforaethol

Awdur y Ddogfen Rheolwr Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd

Dyddiad Cyhoeddi 2012

Dyddiad Gweithredu 2012

Rhif y Fersiwn 12

Dyddiad yr Adolygiad Ionawr 2026
Diwethaf

Diwygiwyd Ddiwethaf Ionawr 2026

Dyddiad yr Adolygiad Ionawr 2027
Nesaf

Manylion Cymeradwyo Cyfarwyddwr Rheoli Risgiau a Gwelliant

Cyfeirnod yr Asesiad EIA- CR 5.40
o'r Effaith ar
Gydraddoldeb

Teitl y Ddogfen: Polisi Amgylcheddol		Rhif y Weithdrefn: 5.40
Dyddiad cyhoeddi: 2012	Diwygiwyd ddiwethaf: Ionawr 2026	Rhif Diwygio: 12
Cyfeirnod EMS: Lefel 1A		
Dogfennau cysylltiedig:		
Newidiadau a Wnaed	Cychwynnydd	Dyddiad
Polisi wedi'i adolygu a'i ddiweddarau (newidiadau blaenorol wedi'u harchifo)	S Doyle RHEOLWR T/S&E	Ionawr 2022 (V8)
Polisi wedi'i adolygu a'i ddiweddarau	J Millard Rheolwr S&E	Ionawr 2023 (V9)
Polisi wedi'i adolygu a llofnod Cadeirydd yr Awdurdod Tân wedi'i ddiweddarau	J Millard Rheolwr S&E	Ionawr 2024 (V10)
Polisi wedi'i adolygu a'i ddiweddarau yn unol â'r Adolygiad Blynnyddol	J Millard Rheolwr S&E	Ionawr 2025 (V11)
PST wedi'i adolygu a'i ddiweddarau	J Millard Rheolwr S&E	Ionawr 2026 (V12)

1.0 Cyflwyniad

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cwmpasu ardaloedd Awdurdod unedol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe. Mae'r polisi hwn yn nodi gweledigaeth ac amcanion amgylcheddol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'n dangos ymrwymiad y Gwasanaeth i reoli effeithiau amgylcheddol ei weithgareddau a gwella ei berfformiad amgylcheddol.

Mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi nodi newid hinsawdd fel un o'r bygythiadau mwyaf i iechyd byd-eang gyda chyfnodau o law trymach a thymhorau poethach hirach yn cael effaith yn lleol ar gynnydd mewn llifogydd ac achosion o danau gwyllt. Mae gan y Gwasanaeth gyfrifoldeb i ystyried ei effeithiau, diogelu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu ac ymrwymo'n llawn i ddiogelu amgylchedd naturiol y rhanbarth.

Polisi Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd

Drwy hyrwyddo'r polisi hwn ledled y sefydliad, mae'r Gwasanaeth yn anelu at annog gweithgareddau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, lleihau ei ôl troed carbon a lleihau arferion gwastraffus a niweidiol.

2.0 Pwrpas

Mae'r polisi hwn yn disgrifio agwedd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru at faterion amgylcheddol. Mae gan y polisi bedwar prif bwrpas:

- Arddangos bwriad strategol ac ymrwymiad y Gwasanaeth i leihau unrhyw effaith negyddol o'i weithgareddau ar yr amgylchedd;
- Rhoi manylion yr ymrwymïadau y mae'r Gwasanaeth wedi'u gwneud i wella ei berfformiad amgylcheddol;
- Gweithredu fel pwynt cyfeirio a chael ei ddefnyddio i lywio pob gweithgaredd o ddydd i ddydd. Bydd ystyriaeth briodol o'r polisi hwn yn cael ei roi wrth ddatblygu neu adolygu polisiau eraill y Gwasanaeth.
- Bwriad y polisi hwn yw cefnogi System Rheoli Amgylcheddol y Gwasanaeth, yn ogystal â chynlluniau ac adroddiadau amgylcheddol eraill megis Map Ffordd Lleihau Carbon 2030 a Chynllun Rheoli Risg Cymunedol y Gwasanaeth 2040.

3.0 Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn cwmpasu holl weithgareddau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac mae'n nodi nifer o ymrwymïadau a fydd yn helpu'r Gwasanaeth i gyflawni ei weledigaeth gorfforaethol.

Nid yw'r polisi hwn yn rhagnodi'r union gamau i'w cymryd; fe'i bwriedir fel canllaw yn hytrach na chyfarwyddyd.

4.0 Cefndir

Er mwyn cynorthwyo Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i wireddu ei weledigaeth, mae angen i'r Gwasanaeth fod yn fwyfwy ymwybodol o'r effeithiau y mae ei weithgareddau'n eu cael ar yr amgylchedd a gweithio tuag at leihau unrhyw effaith negyddol.

Gall y gwaith a wneir gan y Gwasanaeth gael effaith ar yr amgylchedd. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau gweithredol, gan gynnwys tanau, llifogydd, gwrthdrawiadau traffig ar y ffordd ac achosion o lygredd. Rhaid i Ganolfan Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ystyried effaith amgylcheddol y gweithgareddau hyn wrth reoli'r digwyddiad uniongyrchol ac yn ystod ystyriaethau ar ôl y digwyddiad. Yn sgil ei ddyletswyddau, mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ystyriaethau amgylcheddol uniongyrchol eraill drwy'r defnydd o'i adnoddau ei hun. Er

Polisi Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd

enghraifft, gwastraff a gynhyrchir o gyfleusterau gweithdai, gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi a defnyddio ynni i bweru ein cyfleusterau.

Bydd angen i'r Gwasanaeth weithio gyda sefydliadau eraill i sicrhau bod buddiannau gorau'r amgylchedd yn cael eu hystyried, yn ogystal â gweithio tuag at wella a diogelu bioamrywiaeth o fewn ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn ogystal ag ar y tir sy'n eiddo i ni.

Yn ogystal, bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol mewn meysydd anweithredol fel trafnidiaeth, caffael, hyfforddiant, a swyddogaethau gweinyddol mewnol. Mae gan bob un o'r rhain ran i'w chwarae wrth sicrhau bod y Gwasanaeth yn bodloni ei amcanion a'i dargedau amgylcheddol.

Am y rhesymau hyn, mae'r Polisi Amgylcheddol - Datganiad o Fwriad hwn wedi'i greu.

5. Datganiad o Fwriad

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC)

Polisi Amgylcheddol - Datganiad o Fwriad

Mae GTACGC yn cydnabod y gall ei weithrediadau a'i weithgareddau effeithio ar yr amgylchedd. Wrth gynnal ei fusnes, mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i leihau ei ddefnydd o adnoddau naturiol, lleihau faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, cynyddu ailgylchu, atal llygredd a gweithio tuag at wella ei berfformiad amgylcheddol yn barhaus mewn ffordd gynaliadwy. Yn unol ag ymrwymïadau Llywodraeth Cymru, fel Gwasanaeth rydym wedi ymrwymo i weithio tuag at dargedau lleihau carbon a nodir yn ein Map Ffordd Lleihau Carbon 2030 ac Amcan 7, Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040, 'Byddwn yn gweithio mewn ffordd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd ac yn gynaliadwy'.

Mae GTACGC yn cadarnhau ymrwymiad i hyrwyddo amgylchedd cynaliadwy i'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Wrth gyflawni ei weledigaeth "i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru" ac wrth weithio tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy, mae'r Gwasanaeth yn cefnogi ei gymunedau drwy gyfrwng ei weithgareddau atal tân, rhaglenni addysg gymunedol a thrwy leihau ei effeithiau amgylcheddol niweidiol ei hun ac ystyried yr hyn sy'n achosi newid hinsawdd.

Mae GTACGC wedi ymrwymo i leihau allyriadau carbon yn unol ag uchelgais Sero Net Llywodraeth Cymru yn ogystal â lleihau ein heffaith ar fioamrywiaeth yn unol â Dyletswydd Adran 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a gwneud cyfraniad rhagweithiol a gwerthfawr at ddiogelu a gwella ein hamgylchedd trwy'r ymrwymïadau canlynol:

- Anelu at gysoni ein Map Ffordd Lleihau Carbon 2024-2030 â chynllun ac uchelgais sero net Llywodraeth Cymru;

Polisi Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd

- Ymrwymo i ddiogelu'r amgylchedd a gwella bioamrywiaeth trwy'r amcanion yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur y Gwasanaeth;
- Sicrhau ein bod yn bodloni neu'n rhagori ar ein cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys gofynion rheoleiddio a chytundebau sy'n ymwneud â mesurau amgylcheddol y Gwasanaeth;
- Adrodd yn flynyddol ar berfformiad, amcanion a thargedau amgylcheddol i sicrhau gwelliant parhaus;
- Hyrwyddo Cynlluniau, Polisiâu a Gweithdrefnau Amgylcheddol y Gwasanaeth i bartïon â diddordeb;
- Rhoi hyfforddiant pwrpasol i weithwyr yn eu cyfrifoldebau amgylcheddol;
- Ystyried materion amgylcheddol wrth wneud penderfyniadau prynu a chynllunio a dylunio prosiectau i wneud datblygu cynaliadwy yn 'Egwyddor Drefnu Graidd' i'r Gwasanaeth;
- Mabwysiadu mesurau lleihau dŵr a gwella'r defnydd cynaliadwy o adnoddau;
- Lleihau'r defnydd o ynni ac annog mentrau gwyrdd wrth ymgorffori strategaethau hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd ynni mewn cynllunio a datblygu;
- Hyrwyddo'r defnydd o gerbydau modur sy'n effeithlon o ran tanwydd ac ehangu ein fflyd o Gerbydau Allyriadau Sero / Allyriadau Isel lawn;
- Ehangu ein seilwaith gwefru trydan mewn lleoliadau Gwasanaeth ac archwilio cyfleoedd cydweithredu lleol;
- Lleihau unrhyw effaith andwyol ar yr amgylchedd o ganlyniad i'n gweithgareddau darparu Gwasanaeth mewn digwyddiadau gweithredol;
- Lleihau gwastraff a llygredd trwy ddatblygu a gweithredu gweithdrefnau rheoli gwastraff sy'n amgylcheddol gadarn;
- Cynnal a chadw tiroedd ac adeiladau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru mewn ffordd sy'n sensitif i'r amgylchedd, gan ystyried gwarchod cynefinoedd naturiol lleol a gwella ac annog bioamrywiaeth;
- Gweithio gyda'n partneriaid ac asiantaethau lleol a chenedlaethol eraill, yn ôl yr angen, i hyrwyddo polisiâu amgylcheddol, cyflawni 'Arfer Gorau' a diogelu'r amgylchedd.

Mae'r Polisi hwn yn cadarnhau ymrwymiad y Gwasanaeth i amddiffyn ein hamgylchedd uniongyrchol ac ehangach rhag ei weithgareddau. Bydd cynnydd wrth ddatblygu a gweithredu strategaethau amgylcheddol yn cael ei adolygu a'i adrodd yn flynyddol. Bydd y Datganiad o Fwriad hwn a dogfennau cysylltiedig eraill ar gael ar wefannau mewnol ac allanol GTACGC ac ar gael i bawb yn ôl yr angen. Bydd y polisi hwn yn destun adolygiad blynyddol, i sicrhau ei fod yn aros yn berthnasol trwy ddeddfwriaeth amgylcheddol sy'n esblygu'n barhaus.



C Flannery
Prif Swyddog Tân



J Davies
Cadeirydd yr Awdurdod Tân

Dyddiad : 10 Ionawr 2026

CR 5.40 Polisi Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd

DOGFEN HEB EI RHEOLI AR ÔL EI HARGRAFFU

6.0 Adolygiad o'r Polisi

Bydd y polisi hwn yn destun adolygiad yn dilyn:

- I. derbyn gwybodaeth newydd;
- II. newid gweithdrefnau gwaith neu gyflwyno rhai newydd;
- III. cyflwyno cytundebau newydd;
- IV. mewn unrhyw achos ar ôl 12 mis;
- V. ar unrhyw adeg arall pan ystyrir bod y weithdrefn bresennol yn annilys.